Coleg
Cymraeg
Cenedlaethol

Cynllun Strategol

2014/15 hyd at 2016/17

Rhagarweiniad

Andrew Green
Cadeirydd

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Cynllun Strategol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ar gyfer y cyfnod 2014/15 hyd at 2016/17. Pwrpas y ddogfen hon yw rhoi cyfeiriad strategol i raglen weithredol y Coleg, a gyflwynir ar ffurf Cynllun Gweithredu i'w gyhoeddi'n flynyddol ym mis Gorffennaf. Bydd y cynlluniau gweithredu hynny yn cynnwys manylion ar sut yn union y gweithredir nodau'r Cynllun Strategol hwn yn flynyddol.

Mae'r Cynllun Strategol hwn wedi ei fabwysiadu gan Fwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg yn dilyn trafodaeth yn eu cyfarfodydd ar 19 Chwefror ac 18 Mehefin 2014. Rhagwelwyd hefyd y byddai modd adlewyrchu canfyddiadau cychwynnol y gwerthusiad a gomisiynwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ar y cynnydd a wnaed gan y Coleg ers ei sefydlu yn 2011. Fodd bynnag, ni ddaeth yr adroddiad hwnnw i law ar adeg llunio'r rhagymadrodd hwn ac, felly, bydd y Coleg yn addasu'r Cynllun – os bydd angen gwneud hynny – maes o law.

Cyhoeddir y strategaeth hon ar adeg allweddol yn natblygiad y Coleg. Sefydlwyd y Coleg yn 2011 yn seiliedig ar adroddiad a luniwyd gan yr Athro Robin Williams yn dilyn ymrwymiad polisi gan Lywodraeth Cymru ar y pryd i sefydlu corff o'r fath yn eu cytundeb 'Cymru'n Un'. Mae sefydlu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol hefyd yn un o gonglfeini Strategaeth Addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru, sydd yn gynllun hir dymor i gynllunio addysg Gymraeg ar draws y sectorau gwahanol mewn modd strategol a chydlynol.

Defnyddiwyd mwyafrif y cyllid newydd a ddarparwyd yn sgil adroddiad Robin Williams ar gyfer sefydlu Cynllun Staffio Academaidd sydd, bellach, wedi arwain at benodi dros gant o ddarlithwyr newydd i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Ochr yn ochr â'r buddsoddiad hwnnw, datblygodd y Coleg gynllun academaidd cynhwysfawr sy'n dangos gweledigaeth ar gyfer darparu drwy'r Gymraeg – yn llawn neu'n rhannol – ar draws ystod eang o bynciau. Er bod y weledigaeth honno yn un hir dymor ac yn ymestyn y tu hwnt i gyfnod y Cynllun Strategol hwn, y mae targedau diriaethol wedi eu cynnwys yma sy'n gysylltiedig â'r weledigaeth honno.

Yn ystod y cyfnod nesaf, yn dilyn y buddsoddiad cychwynnol hwn, mae'r Coleg yn bwriadu sicrhau yr adeiladir ar y seiliau cadarn a osodwyd yn barod. Yn greiddiol i hyn y mae'r gwaith o weithio gyda'r sector addysg uwch i gynyddu'r niferoedd sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys gosod targedau ar gyfer sefydliadau a phynciau unigol er mwyn cysylltu'r gwaith cynllunio academaidd â sbarduno cynnydd mewn niferoedd. Ar yr un pryd, ymestyn gweithgareddau academaidd y Coleg i gyfeiriadau ehangach, gan gynnwys rhoi pwyslais ychwanegol ar ymchwil ac ysgolheictod, dulliau addysgu arloesol ac ehangu mynediad a chyfranogiad.

Er mwyn gallu gwireddu'r amcanion hyn, rhaid i'r Coleg barhau i ddatblygu a chynnal partneriaethau oddi mewn i'r sector addysg uwch a thu hwnt. Oddi mewn i'r sector daw cydweithio academaidd yn fwyfwy allweddol er mwyn sicrhau y cynigir arbenigeddau darlithwyr i fyfyrwyr mewn sefydliadau heblaw y sefydliad sy'n eu cyflogi. Bydd hyn yn arbennig o bwysig mewn meysydd nad y'u haddysgir drwy gyfrwng y Gymraeg yn draddodiadol neu lle mae nifer o fyfyrwyr – yn y tymor byr i ganolig o leiaf – yn debygol o barhau yn isel.

Yn ehangach yn y byd addysg, y mae partneriaethau gyda sectorau eraill, yn enwedig ysgolion uwchradd a cholegau addysg bellach, yn allweddol er mwyn sicrhau dilyniant a llwyddiant Strategaeth Addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru.

Credwn hefyd fod gan y Coleg swyddogaeth bwysig o ran datblygu'r berthynas rhwng addysg ac ysgolheictod yn y Gymraeg a'r dimensiwn rhyngwladol a byd-eang. Gan adeiladu ar y Gynhadledd Ryngwladol gyntaf a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2014, bwriedir datblygu'r agenda hon yn y blynyddoedd nesaf. Yn ogystal â mabwysiadu polisïau ac arfer da o rannau eraill o Ewrop a'r byd, credwn fod yr hyn a gyflawnir yng Nghymru bellach yn cynnig modelau y gallai eraill eu hefelychu mewn perthynas â themâu megis datblygu staff, dulliau addysgu arloesol a rhannu adnoddau.

Mae'r Coleg, fel sefydliad cenedlaethol, yn ystyried bod ganddo swyddogaeth bwysig i'w chwarae yn ystod cyfnod y Cynllun hwn ac yn adeiladu partneriaethau gyda sefydliadau cyffelyb er mwyn cyflawni hyn. Ystyriwn y bydd rhai cyfleoedd a phrosiectau mewn partneriaeth â chyrff ac asiantaethau eraill yn gyfrwng i alluogi cenhadaeth y Coleg i ddylanwadu ar ystod o beuoedd yn y byd addysg a thu hwnt, a thrwy hyn yn cyfrannu'n greadigol at ddatblygiad Cymru'r unfed ganrif ar hugain.

Andrew Green
Cadeirydd
1 Awst 2014

Targedau

Niferoedd myfyrwyr

Targed	Gweithrediad
Cefnogi'r sector i weithio tuag at y targed cyfrwng Cymraeg, sef: Sicrhau y bydd nifer y myfyrwyr sy'n astudio o leiaf 5 credyd o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg, y flwyddyn, ar gyrsiau addysg uwch mewn sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru yn codi o 4,335 yn 2011/12 i 5,600 yn 2015/16, gan gynnwys cynnydd o 2,269 i 3,030 yn nifer y rhai sy'n astudio o leiaf 40 credyd y flwyddyn	Paratoi dadansoddiad fesul sefydliad a fesul pwnc o'r cynnydd sydd angen ei sicrhau er mwyn cyrraedd y targed, a'i adolygu'n gyson

Darlithwyr

Targed	Gweithrediad
Cefnogi'r sefydliadau, drwy grantiau a chynllunio strategol, i gyrraedd a chynnal y nod o greu o leiaf 100 swydd newydd cyfrwng Cymraeg erbyn 2015/16	Gweithio gyda'r sefydliadau i sicrhau cynaladwyedd y buddsoddiad, gan gynnwys cydgyllido swyddi ar gyfer y dyfodol

Darpariaeth academaidd

Targed	Gweithrediad
Yn dilyn cwblhau'r cynlluniau pwnc unigol, sefydlu proses ar gyfer adolygu a chydgynllunio darpariaeth, gan gynnwys adolygu Cynllun Academaidd y Coleg	Sefydlu rhaglen waith a'i gweithredu dan arweiniad y Bwrdd Academaidd

Dilyniant

Targed	Gweithrediad
Cyfrannu at gyrraedd y targedau a nodir yn Strategaeth Addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru	Cynnal trafodaethau rheolaidd gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ynghylch y gydberthynas rhwng cynlluniau'r Coleg a gweithgareddau mewn sectorau eraill sy'n berthnasol i gyflawni nodau'r Strategaeth

Hyfforddiant a datblygu staff

Targed	Gweithrediad
Parhau i arwain y gwaith o gydlynu a threfnu hyfforddiant ar gyfer staff academaidd ynghyd â hyfforddiant ymchwil ar gyfer myfyrwyr	Cryfhau'r berthynas rhwng gweithgareddau'r Coleg a rhaglenni hyfforddiant sefydliadol, gan gynnwys mapio yn unol â safonau a bennir gan yr Academi Addysg Uwch

Ymchwil

Targed	Gweithrediad
Datblygu cynllun ymchwil o fewn adnoddau'r Coleg a chyda chymorth partneriaid er mwyn sefydlu sail ymchwil gadarnach ar gyfer cynllunio academaidd a gosod targedau yn y dyfodol	Sefydlu rhaglen waith a'i gweithredu dan nawdd y Pwyllgor Ymchwil a Chyhoeddi

Arloesedd a blaengaredd mewn addysgu

Targed	Gweithrediad
Sicrhau bod y Coleg yn ymateb yn gyson ac yn hyblyg i ddatblygiadau addysgol a methodolegol a all gefnogi profiad myfyrwyr	Cyhoeddi cynllun blynyddol yn amlinellu cynlluniau manwl y Coleg, gan gynnwys targedau, ar gyfer gwella profiad myfyrwyr sy'n astudio dan nawdd y Coleg

Sgiliau iaith

Targed	Gweithrediad
Sicrhau bod myfyrwyr sy'n aelodau o'r Coleg yn cael cyfleodd i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg a dwyieithog ar eu cyrsiau gradd ac yn ychwanegol atynt	Datblygu rhaglen genedlaethol i gefnogi sgiliau iaith myfyrwyr, gan adeiladu ar Dystysgrif Sgiliau Iaith y Coleg

Datganiad Cenhadaeth

1. Craidd cenhadaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yw'r egwyddor syml ond pwerus fod gan bob myfyriwr yr hawl i addysg uwch cyfrwng Cymraeg o'r radd flaenaf.

2. Er mwyn diwallu'r hawl honno, rhaid wrth academyddion Cymraeg eu hiaith a all addysgu ac ymchwilio drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn sicrhau darpariaeth a fydd yn eang o ran ystod pynciau a lleoliad daearyddol.

3. Gweledigaeth genedlaethol sydd gan y Coleg. Mae'n gweithio gyda'i ganghennau yn y prifysgolion i gynnal, datblygu, ehangu a chynllunio darpariaeth addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg ac i sicrhau bod niferoedd cynyddol o fyfyrwyr yn manteisio ar y ddarpariaeth honno.

4. Mae'r Coleg yn rhoi blaenoriaeth i'r iaith Gymraeg, y diwylliant Cymreig ynghyd ag ysgolheictod drwy gyfrwng y Gymraeg wrth gynllunio, datblygu a gweithredu ei gynlluniau, gan sicrhau'r gwerth gorau am yr arian a fuddsoddir.

5. Mae'r Coleg yn ymrwymo i egwyddorion cyfle cyfartal, cynhwysedd ac ehangu mynediad. Bydd yn gweithio gyda phartneriaid er mwyn mynd i'r afael â'r rhwystrau penodol sy'n wynebu myfyrwyr er mwyn sicrhau bod pobl, beth bynnag fo'u cefndir, yn cael cyfle cyfartal wrth gyrchu addysg uwch cyfrwng Cymraeg.

Y cyd-destun strategol

- Mae'r Coleg, drwy ei bartneriaeth gyda'r prifysgolion (a seiliwyd ar gytundebau ffurfiol), yn sicrhau bod yr holl gyllid a ddyrennir i'r sefydliadau drwy'r Coleg ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei ddefnyddio at y pwrpas hwnnw. Mae'r Coleg hefyd yn sicrhau bod y cyllid hwn yn ychwanegol at wariant presennol y sefydliadau o'u cyllidebau eu hunain ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

- Mae'r Coleg wedi datblygu strategaeth academaidd sy'n seiliedig ar gynllunio academaidd pwrpasol a strategaeth glir y cytunwyd arni gan y sector addysg uwch. Mae'r strategaeth hon yn cyflwyno gweledigaeth newydd ar gyfer y Gymraeg mewn addysg uwch yng nghyd-destun y sector addysg uwch fel ag y mae bellach yng Nghymru. Priod waith y Coleg yw hyrwyddo a diogelu lle'r Gymraeg o fewn y cyd-destun hwnnw.

- Mae'r Coleg yn ystyried bod Strategaeth Addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru yn ganolog i weithredu cenhadaeth y Coleg. Mae'n darparu cefnogaeth yn ôl yr angen i sectorau eraill wrth iddynt ymateb i ofynion y Strategaeth, ac yn gweithio'n benodol gyda'r sectorau uwchradd ac addysg bellach yn y cyswllt hwn.

- Mae cenhadaeth y Coleg yn berthnasol i agenda addysg yn rhyngwladol, ac yn tynnu ar enghreifftiau o flaengaredd ac arfer da mewn addysgu a datblygu adnoddau. Mae hefyd yn sicrhau sylw dyledus yng ngweddill Ewrop a thu hwnt i'r hyn a gyflawnir yng Nghymru.

- Mae'r Coleg yn ystyried mai man cychwyn yw'r buddsoddiad sylweddol a wnaed ers sefydlu'r Coleg mewn cyllido swyddi academaidd. Wedi meithrin cenhedlaeth newydd o academyddion sydd wedi sicrhau swyddi dan nawdd y Coleg, mae'n hanfodol sicrhau cynaladwyedd y buddsoddiad hwn.

- Mae’r Coleg yn sicrhau bod y cyllid penodol ar gyfer y Gymraeg, a ddarparwyd yn dilyn sefydlu’r Coleg, yn cael ei ddefnyddio ar sail strategol ac yn benodol er mwyn hyrwyddo a datblygu agenda academaidd y Coleg. Mae monitro’r targedau a osodir gan Lywodraeth Cymru, y Cyngor Cyllido a’r Coleg ei hun, yn hanfodol i lwyddiant y Coleg yn y dyfodol.

- Mae’r Coleg yn cydnabod pwysigrwydd targedau cadarn er mwyn cynyddu nifer y myfyrwyr sy’n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae’r Coleg yn ymateb yn gadarnhaol i dargedau o’r fath a osodir gan Lywodraeth Cymru a’r Cyngor Cyllido. Mae’r Coleg yn gosod ei dargedau ei hun ar gyfer meysydd academaidd unigol a sefydliadau.

- Bydd y Coleg hefyd yn gweithredu fel lladmerydd dros yr egwyddor o astudio drwy gyfrwng y Gymraeg gan ddadlau na fydd modd i addysg Gymraeg gael ei lle haeddiannol ym myd ysgolheictod ac addysg prifysgol hyd nes i’r ddarpariaeth a’r dewis ar gyfer myfyrwyr gael eu hehangu’n sylweddol, a hynny er mwyn cyfateb i’r patrymau a sefydlwyd eisoes mewn sectorau addysgol eraill, gan gynnwys ysgolion cynradd ac uwchradd.

- Mae’r Coleg yn ymrwymo i gyfoethogi’r profiad dysgu trwy dechnoleg, gan sicrhau y ceir buddsoddiad priodol mewn isadeiledd technegol ynghyd â chefnogaeth i hwyluso dysgu yn lleol ac yn genedlaethol. Mae’r Coleg hefyd yn sicrhau bod adnoddau electronig ar gael i gynulleidfa mor eang â phosib, gan ddefnyddio trwyddedau ‘agored’ lle bo hynny’n bosibl er mwyn hwyluso defnydd eang adnoddau o fewn a thu hwnt i’r sector.

Blaenoriaethau strategol hyd at 2016/17

O fewn cyd-destun strategol y targedau a osodir gan Lywodraeth Cymru, blaenoriaethau strategol y Coleg yw:

1. Cynnal safonau academaidd o'r radd flaenaf
2. Cynnig dewis i fyfyrwyr
3. Hwyluso cydweithredu a chynaladwyedd
4. Cynnal a chynyddu niferoedd myfyrwyr
5. Hyrwyddo sgiliau proffesiynol a chyflogadwyedd
6. Cefnogi ehangu mynediad
7. Sicrhau effeithlonrwydd

BLAENORIAETH 1: Cynnal safonau academaidd o'r radd flaenaf

Galluogi addysgwyr ac ymchwilwyr o'r safon uchaf i gyfrannu at weithgareddau'r Coleg Cymraeg; talu sylw dyledus i gynllunio academaidd yn genedlaethol, ynghyd â hyrwyddo a datblygu ysgolheictod, ymchwil a chyhoeddi drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r themâu canlynol yn berthnasol i'r flaenoriaeth hon:

- Datblygu'r cysyniad o gymuned academaidd Gymraeg yn seiliedig ar aelodaeth o'r Coleg sy'n agored hefyd i staff academaidd a addysgant ac/neu a ymchwiliant drwy gyfrwng y Gymraeg, ond nad yw eu swyddi'n cael eu noddi gan y Coleg
- Sicrhau bod penodiadau i swyddi a noddir gan y Coleg yn sefydlu a datblygu corff o ddarlithwyr o'r radd flaenaf, a fydd yn dangos blaengaredd yn eu dulliau dysgu, addysgu ac ymchwilio
- Cefnogi datblygiad ysgolheigaidd aelodau staff y Coleg drwy weithredu rhaglen hyfforddiant mewn sgiliau ymchwil, sgiliau addysgu a sgiliau ieithyddol ar gyfer academyddion. Mae'r ddarpariaeth hon, sy'n adlewyrchu gwaith yr Academi Addysg Uwch ar gyfer sicrhau ansawdd, yn cynnwys darparu hyfforddiant i alluogi academyddion ar ddechrau eu gyrfa i ennill cymhwyster cydnabyddedig (sef y Dystysgrif Ôl-raddedig Addysg Uwch ym mwyafrif y prifysgolion)
- Darparu cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer pob aelod staff academaidd sy'n aelod o'r Coleg
- Hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng academaidd, gan gynnwys noddi a chefnogi ymchwil a chyhoeddi drwy gyfrwng y Gymraeg ynghyd â hwyluso cyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol ar gyfer trafod pynciau a meysydd ymchwil
- Sicrhau y datblygir adnoddau o'r ansawdd uchaf at ddefnydd myfyrwyr
- Sicrhau bod prosesau cynllunio academaidd y Coleg yn talu sylw addas i ansawdd, safonau a phrofiad y myfyriwr, ac yr adolygir y strategaethau a'r cynlluniau'n gyson
- Sicrhau bod gan y Coleg drefniant i gydweithio gyda'r prifysgolion unigol i weithredu cynnydd eu strategaethau addysgu cyfrwng Cymraeg, a bod nawdd drwy grantiau gan y Coleg yn gysylltiedig â buddsoddiad a thargedau sefydliadol.

Yn ystod cyfnod y Cynllun Strategol hwn, byddwn yn:

1.1 Cytuno – cyn diwedd cyfnod y cytundebau cyllido presennol yn 2016 – ar gytundebau newydd ar gyfer cydweithio rhwng y Coleg a'r prifysgolion unigol, gan gynnwys cydariannu adnoddau ar gyfer sicrhau cynaladwyedd swyddi academaidd a darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn dilyn cyfnod cyllido cychwynnol gan y Coleg

1.2 Gweithredu, ac adolygu'n gyson, amrediad o gynlluniau pynciol academaidd sy'n bwydo i'r cynllun academaidd cenedlaethol ac sy'n sail i'r gefnogaeth a gynigir gan y Coleg, gan gynnwys cefnogaeth ariannol drwy grantiau yn y disgyblaethau unigol

1.3 Sicrhau bod pob buddsoddiad yn ymateb i amcanion ac anghenion a nodwyd yn y cynllun academaidd cenedlaethol

1.4 Cyllido ysgoloriaethau ymchwil newydd yn flynyddol drwy'r Cynllun Ysgoloriaethau Ymchwil

1.5 Gwneud defnydd effeithlon o gyllideb staffio academaidd er mwyn cynnal swyddi academaidd cyfredol a chreu swyddi newydd, gan weithio gyda'r prifysgolion i gydgyllido a chyd-ddatblygu adnoddau a darpariaeth. Cynhelir cyfarfodydd blynyddol gyda'r prifysgolion unigol er mwyn adolygu a blaengynllunio

1.6 Cyhoeddi rhifynnau o gyfnodolyn ymchwil y Coleg, Gwerddon, yn flynyddol

1.7 Sicrhau bod pob aelod o'r staff academaidd a noddir gan y Coleg yn ennill cymhwyster cydnabyddedig ar gyfer addysgu mewn prifysgol.

BLAENORIAETH 2:
Cynnig dewis i fyfyrwyr

Cynyddu nifer y myfyrwyr sy'n dewis astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Gwneir hyn drwy (i) cynnig dewis eang a chyfoethog i fyfyrwyr sydd am astudio drwy gyfrwng y Gymraeg mewn amrediad o feysydd, (ii) cynyddu nifer y llwybrau astudio cyfrwng Cymraeg yn genedlaethol er mwyn cwrdd â'r galw gan gyflogwyr am ymarferwyr dwyieithog yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i greu Cymru ddwyieithog, a (iii) sicrhau bod y gefnogaeth i fyfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg o'r safon uchaf ac yn gyfwerth ag unrhyw brofiadau astudio eraill.

Mae'r themâu canlynol yn berthnasol i'r flaenoriaeth hon:

- Parhau i gynllunio'n strategol, drwy adolygu'r Cynllun Academaidd sy'n seiliedig ar flaenoriaethau'r Coleg, ac sy'n ymateb i'r galw gan gyflogwyr
- Sicrhau profiad astudio o'r radd flaenaf i fyfyrwyr sy'n gysylltiedig â'r Coleg, gan gynnwys talu sylw dyledus i'r agenda o sicrhau a hyrwyddo ansawdd
- Sicrhau cyfleoedd digonol ar gyfer astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel uwchraddedig, gan gynnwys astudio ar gyfer doethuriaethau
- Defnyddio'r Cynllun Staffio Academaidd i gynnal a chynyddu niferoedd y staff academaidd sy'n dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, gan sefydlu a gwreiddio'r egwyddor o gydariannu swyddi rhwng y Coleg a'r sefydliadau
- Sicrhau bod llwybrau astudio addas ar gyfer myfyrwyr ym mhob maes academaidd a gefnogir gan y Coleg, gan weithio tuag at sicrhau y gall myfyrwyr astudio o leiaf 40 credyd bob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg yn y meysydd hyn
- Sicrhau bod modiwlau a chyrsiau gradd cyfan ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys drwy bartneriaethau rhanbarthol a daearyddol ynghyd â thrwy ddefnydd o dechnolegau arloesol
- Cynyddu'r ddarpariaeth ran amser cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys llwybrau hyblyg ar gyfer hwyluso dysgu yn y gweithle, a sicrhau bod y ddarpariaeth yn adlewyrchu datblygiadau cyfredol o ran dysgu agored ac ar-lein
- Sicrhau y mesurir canlyniadau buddsoddiad gan y Coleg mewn perthynas â chynnydd mewn niferoedd a/neu gyfoethogi profiadau addysgol myfyrwyr.

Yn ystod cyfnod y Cynllun Strategol hwn, byddwn yn:

2.1 Sicrhau bod cynlluniau academaidd unigol yn parhau i adnabod blaenoriaethau perthnasol, gyda chanlyniadau mesuradwy, i'w cefnogi drwy fuddsoddiad gan y Coleg

2.2 Cyfrannu at brosesau cynllunio strategol oddi mewn i faes Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon er mwyn cyflawni'r targedau sydd ynghlwm wrth Strategaeth Addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru, gan gynnwys tasgau a nodir gan y Cyngor Cyllido yn llythyr grant y Coleg

2.3 Sicrhau bod pob cynllun datblygu pynciol yn cynnig llwybrau astudio (gan gynnwys elfennau galwedigaethol lle bo hynny'n berthnasol) ar gyfer myfyrwyr, gan gynnwys dilyniant o'r sectorau ysgolion ac addysg bellach ymlaen at astudiaethau uwchraddedig, lle bo hynny'n berthnasol

2.4 Gweithio gyda'r prifysgolion er mwyn datblygu llwybrau mynediad amgen ar gyfer myfyrwyr a astudiodd y Gymraeg fel ail iaith, gan gynnwys ystyried modelau trochi ar gyfer myfyrwyr sy'n cychwyn yn y brifysgol

2.5 Drwy gytuno ar dargedau gyda'r sefydliadau, sicrhau bod cynifer â phosibl o fyfyrwyr yn ymaelodi â'r Coleg (ac yn parhau fel cyfeillion wedi iddynt raddio), gan greu ymdeimlad o berthyn i sefydliad cenedlaethol a fydd yn gweithredu ar lefel Cymru-gyfan ac ar lefel leol i'r prifysgolion unigol

2.6 Parhau i gynnig ysgoloriaethau yn flynyddol i fyfyrwyr sy'n astudio rhan o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg

2.7 Cydweithio gyda phartneriaid gan gynnwys Ymddiriedolaeth William Salesbury, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill yn y sectorau cyhoeddus a phreifat er mwyn cynnig ysgoloriaethau ychwanegol

2.8 Sicrhau – yn unol â'r ymrwymiad i gyfle cyfartal – bod y Coleg yn rhagweithiol wrth gefnogi myfyrwyr o gymunedau a gynrychiolir yn annigonol ymysg myfyrwyr prifysgol

2.9 Gweithio gyda'r sector addysg bellach a'r sector uwchradd er mwyn creu llwybrau dilyniant at addysg uwch ac ystyried cyfleoedd i rannu arbenigeddau ac adnoddau

2.10 Yn dilyn cyflwyno'r cynllun astudiaethau rhan amser yn 2014, datblygu cyfleoedd astudio pellach ar gyfer myfyrwyr rhan amser, gan ddefnyddio modelau dysgu cyfunol, dysgu o bell a chynyddu cyfleoedd ar gyfer dysgu yn y gweithle

2.11 Gweithio gyda phartneriaid er mwyn sicrhau cyrsiau mynediad addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg

2.12 Yn dilyn adolygiad Llywodraeth Cymru o faes Cymraeg i Oedolion, ystyried ffyrdd y gall y Coleg gefnogi'r maes hwn, gan gynnwys rhannu adnoddau.

BLAENORIAETH 3: Hwyluso cydweithredu a chynaladwyedd

Sicrhau bod y Coleg yn datblygu partneriaethau gweithredol gydag amrediad o bartneriaid, gan gynnwys prifysgolion, myfyrwyr, colegau addysg bellach ac ysgolion, ynghyd â sefydliadau cenedlaethol eraill, gan ystyried ffyrdd effeithiol o rannu adnoddau a chynllunio'n effeithiol at y dyfodol er mwyn sicrhau parhad tymor hir i weithgareddau craidd y Coleg.

Mae'r themâu canlynol yn berthnasol i'r flaenoriaeth hon:

- Parhau i ddatblygu perthynas effeithiol gyda llunwyr polisi, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Addysg Uwch Cymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
- Sicrhau bod y Coleg yn cynnal cyfres flynyddol o gyfarfodydd cynllunio academaidd gyda'r prifysgolion er mwyn goruchwylio cynnydd strategaethau addysgu cyfrwng Cymraeg y sefydliadau unigol, a sicrhau bod cytgord rhwng cynlluniau a noddir gan y Coleg a thargedau sefydliadol
- Sicrhau bod sefydliadau addysg uwch yn rhannu adnoddau yn effeithiol ac yn arloesi gyda'r defnydd o dechnolegau gwybodaeth a chyfathrebu, gan gynnwys adnoddau agored, er mwyn cyfoethogi profiad y myfyrwyr ac ansawdd yr addysg
- Cryfhau'r berthynas ymhellach rhwng y Coleg a'r prifysgolion drwy Addysg Uwch Cymru a rhwydweithiau eraill
- Casglu data a chynllunio ar sail y niferoedd y gellir yn rhesymol eu denu i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, gan wneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau staff ac adnoddau eraill er mwyn sicrhau bod cynifer â phosibl o fyfyrwyr yn elwa arnynt
- Cyfrannu'n llawn at weithredu a gwireddu Strategaeth Addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru mewn cydweithrediad â sectorau eraill, gan ystyried sut y gallai'r model a ddatblygwyd gan y Coleg o fewn addysg uwch berthnasu i sectorau eraill, ac yn benodol addysg bellach ac addysg ôl-16
- Sicrhau bod gan y Coleg gyswllt ffurfiol a chadarn gydag ysgolion uwchradd, colegau addysg bellach, Gyrfa Cymru ac asiantaethau eraill er mwyn codi ymwybyddiaeth myfyrwyr yn gynnar yn ystod eu cyfnod addysgol o'r cyfleoedd cyfrwng Cymraeg yn y brifysgol
- Gweithio gyda'r prifysgolion er mwyn gweithredu cynlluniau ar gyfer rhannu darpariaeth ac adnoddau, e.e. drwy'r Porth a thrwy rannu arbenigedd academaidd drwy'r Cynllun Staffio gan sicrhau bod cynifer â phosibl o fyfyrwyr yn manteisio

- Darparu gofodau dysgu ac adnoddau eraill er mwyn hwyluso dysgu cydweithredol drwy fideo gynadledda a dulliau eraill
- Sicrhau y gwneir defnydd llawn a phwrpasol o bosibiliadau technegol megis cipio darlith er mwyn rhannu arbenigedd academyddion ar draws y prifysgolion
- Sicrhau y datblygir ac y darperir ystod eang o adnoddau cefnogi astudio – ar sail generig a phynciol – yn electronig ac ar bapur gan y Coleg, ynghyd â sicrhau bod adnoddau ar gael ar sail trwyddedau 'agored' lle bo hynny'n addas.

Yn ystod cyfnod y Cynllun Strategol hwn, byddwn yn:

3.1 Cynnal cyfarfodydd cynllunio blynyddol gyda phrifysgolion er mwyn canolbwyntio'n benodol ar sicrhau cynaladwyedd swyddi academaidd a chynlluniau eraill a gefnogir gan y Coleg yn dilyn y cyfnod cyllido cychwynnol

3.2 Gweithio gyda'r prifysgolion er mwyn galluogi'r sector addysg uwch i ymateb i dargedau a osodir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cynnal a chynyddu niferoedd myfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg

3.3 Gweithio gyda Cholegau Cymru, y sefydliadau addysg bellach a Llywodraeth Cymru er mwyn gweithredu cynlluniau ar gyfer efelychu rhai o weithgareddau'r Coleg oddi mewn i'r sector addysg bellach, a thrwy hynny gynyddu galw gan fyfyrwyr am addysg uwch cyfrwng Cymraeg (gan gynnwys cyrsiau addysg uwch mewn sefydliadau addysg bellach)

3.4 Yn dilyn yr adolygiad o faes Cymraeg i Oedolion gan Lywodraeth Cymru, ystyried ffyrdd y gall y Coleg gyfrannu at y maes hwn, yn benodol yng nghyd-destun datblygiad pellach Tystysgrif Sgiliau Iaith y Coleg

3.5 Cryfhau'r cyswllt rhwng y Coleg a'r hyrwyddwyr dwyieithog yn y sefydliadau addysg bellach gan eu cynnwys mewn prosesau cynllunio academaidd a chynlluniau hyrwyddo

3.6 Sicrhau bod gan y Coleg gorff cynrychioliadol o fyfyrwyr sy'n cynrychioli myfyrwyr o fewn strwythurau'r Coleg, a hyfforddir ac a gefnogir drwy raglen gefnogaeth a ddarperir gan y Coleg ac Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru

3.7 Sicrhau bod myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig rhan amser, yn ogystal â llawn amser, yn medru elwa'n llawn ar fod yn aelod o'r Coleg ac yn cael eu cynrychioli'n briodol ar fforymau myfyrwyr oddi mewn i'r Coleg.

BLAENORIAETH 4: Cynnal a chynyddu niferoedd myfyrwyr

Er mwyn cyrraedd targedau cenedlaethol, gweithio gyda'r prifysgolion i sicrhau i) bod cynifer â phosibl o fyfyrwyr o gefndiroedd cymdeithasol a daearyddol amrywiol yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn y prifysgolion, ii) y ceir llwybrau dilyniant cryf o'r sectorau addysg bellach ac uwchradd, a iii) bod myfyrwyr mewn ysgolion a cholegau addysg bellach yn derbyn gwybodaeth a chyngor o oed cynnar am gyfleoedd cyfrwng Cymraeg yn y brifysgol.

Mae'r themâu canlynol yn berthnasol i'r flaenoriaeth hon:

- Cefnogi a hyrwyddo Strategaeth Addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cynnal ymchwil ar ffactorau yn ymwneud â dilyniant rhwng sectorau addysgol
- Adnabod y gynulleidfa darged ymysg darpar fyfyrwyr, rhieni a gofalwyr, ynghyd â gweithredu strategaeth gyfathrebu bwrpasol er mwyn trosglwyddo negeseuon allweddol
- Codi ymwybyddiaeth ymysg darpar fyfyrwyr, rhieni ac athrawon am fudd astudio drwy gyfrwng y Gymraeg mewn addysg uwch, ynghyd ag am ystod y ddarpariaeth bynciol sydd bellach ar gael.

Yn ystod cyfnod y Cynllun Strategol hwn, byddwn yn:

4.1 Cryfhau cysylltiadau gydag ysgolion uwchradd a cholegau addysg bellach drwy gynnal sesiynau wedi eu trefnu'n ganolog gan y Coleg a sesiynau pwnc penodol dan ofal darlithwyr a noddir gan y Coleg

4.2 Ehangu a hyrwyddo system aelodaeth y Coleg er mwyn cysylltu ag aelodau – gan gynnwys myfyrwyr – yn gyson er mwyn lledaenu gwybodaeth berthnasol am gyfleoedd astudio, ysgoloriaethau a chynlluniau eraill

4.3 Creu deunydd yn benodol ar gyfer rhieni a gofalwyr, ac ar gyfer athrawon pwnc

4.4 Datblygu cynllun llysgenhadon gan ddefnyddio myfyrwyr sy'n astudio ar gynlluniau dan nawdd y Coleg ar hyn o bryd

4.5 Parhau i ddatblygu llwyfannau a chyhoeddiadau'r Coleg – gan gynnwys y wefan a'r prosbectws – i fod yn fan canolog a dibynadwy er mwyn darparu gwybodaeth ar gyfer myfyrwyr, rhieni ac athrawon

4.6 Sicrhau defnydd ehangach ac effeithiol o wefannau cymdeithasol, ynghyd ag apiau ar gyfer teclynnau electronig, fel ffyrdd o hyrwyddo a chyfathrebu

4.7 Cydweithio a chreu partneriaeth gyda mudiadau ieuenctid yng Nghymru, gan gynnwys yr Urdd a Mudiad y Ffermwyr Ifanc.

BLAENORIAETH 5: Hyrwyddo sgiliau proffesiynol a chyflogadwyedd

Ymateb i'r galw am sgiliau dwyieithog yn y gweithle yng nghyd-destun polisïau Llywodraeth Cymru ar ddwyieithrwydd.

Mae'r themâu canlynol yn berthnasol i'r flaenoriaeth hon:

- Sicrhau bod cynlluniau academaidd y Coleg yn cynnwys elfennau galwedigaethol
- Datblygu strwythur gadarn yn genedlaethol er mwyn cefnogi datblygiad ieithyddol lefel uwch myfyrwyr, ymchwilwyr a staff academaidd a pherthnasu sgiliau academaidd i sgiliau ieithyddol
- Parhau i ddatblygu Tystysgrif Sgiliau Iaith y Coleg ac archwilio'r potensial ar gyfer cynnig y dystysgrif i staff yn y prifysgolion ynghyd ag oddi mewn i'r gweithle yn ehangach
- Datblygu'r agenda gyflogadwyedd drwy gryfhau perthynas â chyflogwyr a chynnal elfen o brofiad gwaith mewn perthynas â chynllun ysgoloriaethau'r Coleg
- Cyfrannu at ddatblygiadau ym maes Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon, gan gynnwys ymgorffori elfennau o Dystysgrif Sgiliau Iaith y Coleg yn yr hyfforddiant craidd
- Hyrwyddo gwerth sgiliau Cymraeg a dwyieithog ar gyfer cyflogaeth yng Nghymru a thu hwnt
- Cryfhau'r berthynas â chyflogwyr a chyrff perthnasol sy'n gweithio ym maes cyflogaeth er mwyn datblygu cyfleoedd profiad gwaith ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio dan nawdd y Coleg.

Yn ystod cyfnod y Cynllun Strategol hwn, byddwn yn:

5.1 Ystyried sut y dylai'r Coleg a'r sector addysg uwch ymateb i adroddiad Llywodraeth Cymru ar 'Anghenion o ran sgiliau Cymraeg mewn wyth sector' (Mai 2014)

5.2 Gweithio gyda'r sefydliadau i ddatblygu rhaglen ganolog ar gyfer cefnogi myfyrwyr sy'n meddu ar sgiliau iaith Gymraeg a dwyieithog er mwyn eu galluogi i ymateb i ofynion cyflogwyr

5.3 Cydweithio gyda chyrff, gan gynnwys aelodau rhanddeiliadol o'r Coleg, er mwyn hyrwyddo ac ehangu hyfforddiant sgiliau Cymraeg a chyflogaeth cyfrwng Cymraeg ynghyd â hyrwyddo amcanion y Coleg yn fwy cyffredinol

5.4 Gweithio gyda'r prifysgolion er mwyn cryfhau'r ddarpariaeth sgiliau ieithyddol ar gyfer myfyrwyr a staff, gan gynnwys hyfforddiant a chefnogaeth ar gyfer myfyrwyr sy'n meddu ar wahanol lefelau o sgiliau iaith Gymraeg

5.5 Sicrhau yr hysbysir myfyrwyr mewn ysgolion uwchradd a cholegau addysg bellach o bwysigrwydd sgiliau dwyieithog yn y gweithle ynghyd â manteision gyrfaol y gallu i weithio drwy'r Gymraeg, ac y rhoddir iddynt bob cyfle, anogaeth a chefnogaeth i ddod yn aelodau o'r Coleg.

BLAENORIAETH 6:
Cefnogi ehangu mynediad a chyfranogiad

Sicrhau bod ystod mor eang â phosib o fyfyrwyr o wahanol gefndiroedd yn cael mynediant at addysg cyfrwng Cymraeg o fewn addysg uwch ac yn cael cyfle i fod yn rhan ohoni.

Mae'r themâu canlynol yn berthnasol i'r flaenoriaeth hon:

- Cynyddu ac ehangu cyfranogiad drwy ddefnydd o'r Porth a dulliau arloesol a hyblyg eraill o ddilyn darpariaeth addysg uwch, gan gynnwys astudiaeth ran amser
- Ymdrin ag anghysondebau o ran mynediad a chyfle
- Sicrhau cyfleoedd dilyniant addas ar gyfer dysgwyr o bob oedran a chefndir
- Datblygu ymagweddau arloesol tuag at gefnogi darpariaeth hyblyg a rhan amser
- Canolbwyntio ar gymunedau ac unigolion na chânt eu cynrychioli'n ddigonol, gan gynnwys clystyrau Cymunedau yn Gyntaf, wrth ddatblygu cynlluniau.

Yn ystod cyfnod y Cynllun Strategol hwn, byddwn yn:

6.1 Cryfhau'r trefniadau ar gyfer cydweithio gyda'r partneriaethau ehangu mynediad rhanbarthol

6.2 Cefnogi partneriaethau a darpariaeth ar y cyd, gan gynnwys gweithio drwy'r partneriaethau rhanbarthol

6.3 Blaenoriaethu'r gwaith o ddatblygu cyfleoedd addysgu penodol ar gyfer myfyrwyr na chânt eu cynrychioli'n ddigonol o fewn addysg uwch, gan gynnwys myfyrwyr rhan amser

6.4 Parhau i weithio gyda'r sector addysg bellach er mwyn cryfhau cyfleoedd dilyniant, yn benodol ar lefel ranbarthol.

BLAENORIAETH 7: Sicrhau effeithlonrwydd

Sicrhau bod y Coleg yn cyflawni ei nodau a'i amcanion polisi, ynghyd â gwasanaethu'r sector addysg uwch a'r gymuned Gymraeg ehangach yn effeithiol trwy ddefnydd darbodus o adnoddau a thrwy ddarparu amgylchedd gwaith a fydd yn galluogi pawb sy'n gysylltiedig â'r Coleg i ddatblygu a chyflawni eu potensial.

Mae'r themâu canlynol yn berthnasol i'r flaenoriaeth hon:

- Sicrhau bod Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg yn gweithredu yn unol â safonau uchaf gwasanaeth cyhoeddus
- Creu gweithle lle bydd staff yn cael eu trin – ac yn trin ei gilydd – gyda pharch; lle rhoddir iddynt gyfleoedd i ddefnyddio a datblygu eu sgiliau drwy Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus; lle cânt gyfrannu at ddatblygiad y Coleg, cael boddhad o'u gwaith, a thrwy hynny berfformio ar eu gorau
- Cefnogi gweithgareddau Cymdeithas Cyfeillion y Coleg, gan gynnwys unrhyw weithgareddau a fyddai'n cryfhau cyswllt y Coleg gyda chymunedau, yn lleol ac yn genedlaethol
- Cynnal cyswllt effeithiol gyda sefydliadau addysg uwch drwy'r cytundebau ffurfiol a thrwy ganghennau'r Coleg
- Cyfathrebu'n effeithiol a chyson – yn uniongyrchol a thrwy'r canghennau – gyda'r holl staff a myfyrwyr sy'n aelodau o'r Coleg
- Gweithredu Strategaeth Gyfathrebu gynhwysfawr sy'n sicrhau bod cenhadaeth a nodau'r Coleg yn wybyddus i bartneriaid ac i'r gymuned yn ehangach
- Gwneud defnydd effeithiol o'r gwyliau cenedlaethol a digwyddiadau eraill er mwyn hyrwyddo gweithgareddau'r Coleg
- Sicrhau, wrth gynllunio cyllidebau, y rhoddir ystyriaeth lawn i effeithlonrwydd a chost-effeithioldeb y Coleg
- Archwilio'r posibilrwydd o ddenu incwm o ffynonellau amrywiol er mwyn cryfhau sefyllfa hir dymor y Coleg.

Yn ystod cyfnod y Cynllun Strategol hwn, byddwn yn:

7.1 Adolygu a monitro gweithgareddau'r Coleg yn rheolaidd

7.2 Glynu at egwyddorion cyfle cyfartal yn ein holl ymwneud â staff, myfyrwyr, staff academaidd a rhanddeiliaid ehangach

7.3 Hwyluso cyfleoedd hyfforddiant a datblygu gyrfa ar gyfer staff a gyllidir gan y Coleg neu a gyflogir gan y Coleg yn uniongyrchol

7.4 Anelu at sicrhau statws Buddsoddwr mewn Pobl i'r Coleg fel cyflogwr

7.5 Sicrhau rheolaeth effeithiol ar draws gweithgareddau'r Coleg gan gefnogi rheolwyr i gaffael a datblygu'r sgiliau rheoli mwyaf effeithiol

7.6 Rheoli perfformiad staff y Coleg er mwyn sicrhau effeithlonrwydd gweithgareddau'r Coleg

7.7 Ymgynghori'n rheolaidd â'r staff a gyflogir yn uniongyrchol gan y Coleg

7.8 Sicrhau bod gan y Coleg brosesau effeithiol ar gyfer recriwtio, penodi, datblygu a hyfforddi staff o'r safon uchaf, ac ar gyfer dirprwyo yn absenoldeb staff allweddol

7.9 Sicrhau y defnyddir gwefannau'r Coleg, ynghyd â dulliau cyfathrebu amgen, i'w llawn botensial

7.10 Sicrhau – drwy Gynllun Cyhoeddiadau'r Coleg – fod gwybodaeth lawn am y Coleg a'i weithgareddau ar gael i'r cyhoedd.